# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 4 Hydref 2023
## Tabled on 4 October 2023

## Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)
## Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Bill

**Huw Irranca-Davies** **63**

Page 13, after line 34, insert a new section—

**'PART [ ]**

**ACTIVE TRAVEL**

**'[ ] Duty to promote active travel**

(1) Section 10 (duty to exercise functions to promote active travel) of the Active Travel (Wales) Act 2013 is amended in accordance with this section.

(2) In subsection (1), for "under this Act" substitute ", insofar as they relate to active travel,".

(3) After subsection (1) insert—

"(1A) The Welsh Ministers must issue guidance to local authorities in relation to their duty under subsection (1) within 12 months of the day on which this provision comes into force.

(1B) In performing the duty imposed by subsection (1), a local authority must have regard to guidance issued by the Welsh Ministers under subsection (1A)."'.

Tudalen 13, ar ôl llinell 35, mewnosoder adran newydd—

**'RHAN [ ]**

**TEITHIO LLESOL**

**[ ] Dyletswydd i hyrwyddo teithio llesol**

(1) Mae adran 10 (dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi ei diwygio yn unol â'r adran hon.

(2) Yn is-adran (1), hepgorer "o dan y Ddeddf hon" a rhodder ", i'r graddau y maent yn ymwneud â theithio llesol," yn ei le.

(3) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswydd o dan is-adran (1) o fewn 12 mis i'r diwrnod y daw'r ddarpariaeth hon i rym.

(1B) Wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1), rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1A)."'.

**Huw Irranca-Davies** **64**

Page 13, after line 34, insert a new section—

**'PART [ ]**

**ACTIVE TRAVEL**

**[ ] Duty to promote active travel**

(1) Section 10 (duty to exercise functions to promote active travel) of the Active Travel (Wales) Act 2013 is amended as follows.

(2) After subsection (2) insert—

"(3) The Welsh Ministers and local authorities must, in performing the duty imposed on them by subsection (1), have regard to guidance issued by the Welsh Ministers."'.

Tudalen 13, ar ôl llinell 35, mewnosoder adran newydd—

**'RHAN [ ]**

**TEITHIO LLESOL**

**[ ] Dyletswydd i hyrwyddo teithio llesol**

(1) Mae adran 10 (dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir arnynt gan is-adran (1), roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru."'.

**Huw Irranca-Davies** **65**

Section 27, page 15, after line 11, insert—

'( ) section *[section to be inserted by amendment 63]*.'.

Adran 27, tudalen 15, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

'( ) adran *[adran i'w mewnosod gan welliant 63]*.'.